Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd, 24 Ebrill 2020 – Cyfarfod Skype**

**Yn bresennol:**

Shan Morgan
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Andrew Jeffreys
Helen Lentle
Charlie Thomas

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Dim

## 1. Croeso

**1.1** Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a oedd yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru.

## 2. Materion cyfredol/COVID-19

**2.1** Rhoddodd Andrew Goodall yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd o ran y datblygiadau diweddaraf ynghylch COVID-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Nododd y Bwrdd fod staff y GIG wedi mynd y filltir ychwanegol i gyflawni gweithredoedd eithriadol mewn cyfnod eithriadol.

**2.2** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd o ran y trefniadau llywodraethu a'r strwythur mewn perthynas â'r gwaith ar COVID-19, gan ddweud bod y rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio gartref, ac eithrio gweithwyr allweddol.

**2.3** Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â llinell amser newydd y cyfrifon. Bydd y cynllun diwygiedig yn symud llofnodi adroddiad blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 i ddyddiad yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**2.4** Rhoddodd David Richards yr wybodaeth ddiweddaraf am gasgliadau'r ymchwiliad i farwolaeth Carl Sargeant. Dywedodd fod yr ymchwiliad annibynnol wedi cael ei atal, yn dilyn cynnal ymarfer cyfryngu gan Brendan Barber a chael cytundeb gan y partïon â diddordeb, ac y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn talu costau cyfreithiol y teulu sydd heb eu talu.

## 3. Y ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwyr Cyffredinol

**3.1** Rhoddodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith allweddol a oedd yn mynd rhagddo yn eu meysydd cyfrifoldeb. Soniodd Tracey Burke am Addysg a'r Sector Cyhoeddus, Andrew Slade am yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, a Des Clifford am Swyddfa'r Prif Weinidog. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar 4 cam allweddol:

1. Ymateb i'r argyfwng
2. Y normal dros dro
3. Ailddechrau/Adfer
4. Model newydd

**3.2** Trafododd y Bwrdd y strwythur a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y pontio y byddai ei angen rhwng yr ymateb i'r argyfwng a'r cyfnod adfer, a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar yr elfennau canlynol:

- Cynllunio senarios ar hyfer hynt y feirws
- Gwersi a ddysgir o argyfyngau yn y gorffennol
- Strategaeth ar gyfer cyfnod pellter cymdeithasol newydd
- Polisïau i gefnogi adferiad economaidd
- Llacio ymyriadau
- Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol
- Ffyrdd o weithio a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru

**3.3** Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y broses benderfynu, a dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi rhoi gwybod i'r holl staff bod yn rhaid cofnodi pob penderfyniad yn ffurfiol ochr yn ochr â'r rhagdybiaethau a oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw. Cytunodd y Bwrdd fod hynny'n hanfodol ar gyfer craffu yn y dyfodol.

## 4. Adroddiad Cyllid

**4.1** Rhoddodd Andrew Jeffreys a Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion ariannol a chyllidebol presennol, gan roi adborth o'r cyfarfod gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a gynhaliwyd ddydd Mercher.

**4.2** Cyflwynodd Andrew Jeffreys y Dangosfwrdd Cyllid, a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Y sefyllfa ganlyniadol,
- Ail-ddyrannu cyllidebau, a fyddai'n cael eu cyflwyno yn Siambr y Seren yr wythnos nesaf,
- Ail-alinio cyllidebau Ewropeaidd Cymru.

**4.3** Rhoddodd Gawain yr wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb atodol gyntaf gan roi gwybod i'r Pwyllgor Gweithredol bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ymrwymo i ddod â'r gyllideb atodol gyntaf ymlaen o'i dyddiad cyhoeddi arferol ganol Mehefin oherwydd canlyniadau ariannol COVID-19.

**5. Diweddariad cyfathrebu**

**5.1** Rhoddodd Natalie Pearson yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyfathrebu mewnol, gan gyflwyno dangosfwrdd un dudalen ar yr ystadegau diweddaraf ar gyfer newyddion, y Lab Dysgu, a nifer y bobl sydd wedi clicio ar dudalen y fewnrwyd.

**5.2** Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu, er mwyn sicrhau llesiant staff . Dywedodd Natalie fod gwybodaeth friffio yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd, ochr yn ochr â ffilmiau, podlediadau a phecynnau canllaw. Roedd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol hefyd yn cyflwyno amryw o wahanol sianeli cyfathrebu o fewn eu meysydd eu hunain.

**6. Unrhyw fater arall**

**6.1** Cododd y Cyfarwyddwyr Anweithredol fater pwysig Cartrefi Gofal a'r profion a fyddai ar gael iddynt. Cadarnhaodd Andrew Goodall y sefyllfa a'r datblygiadau diweddaraf. Hefyd cododd y Cyfarwyddwyr Anweithredol fater y paratoadau ar gyfer Profi, Tracio ac Olrhain. Canolbwyntiodd y drafodaeth ddilynol ar yr angen i ddysgu gwersi'n gyflym o'r hyn a oedd wedi digwydd ynghylch cyfarfpar diogelu personol, profion, a materion ehangach a oedd yn ymwneud â chaffael er mwyn paratoi ar gyfer y camau nesaf.

**6.2** Cynigiodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol gymorth ychwanegol gydag unrhyw beth yr oedd angen i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd yn ei gylch. Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, a chroesawodd aelodau'r Bwrdd y cynnig hwnnw.

**Camau gweithredu'n codi o gyfarfod y Bwrdd**

| CAMAU GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| DIM | | |